Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales



Newyddion Niwbwrch

Rhifyn 4 • Awst 2010

Bydd cynllun coedwig yn barod cyn bo hir

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r cynllun rheoli hir-ddisgwyliedig ar gyfer Coedwig Niwbwrch.

Dywedodd y Comisiwn, sy'n rheoli'r goedwig ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth gyfarfod o Bartneriaeth Gyswllt Niwbwrch yn ddiweddar y byddai'n cwblhau cynllun ar gyfer y goedwig gyfan er gwaethaf y ffaith na chafwyd cytundeb hyd yma ar adolygiad gwyddoniaeth o nifer y coed y byddai'n rhaid eu cwympo.

Yn wreiddiol, roedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi gobeithio symud ymlaen â'r cynllun rheoli gan beidio â chynnwys yr ardaloedd a oedd yn destun adolygiad gwyddoniaeth.

Ond roedd yn teimlo bellach na fyddai cynllun nad oedd yn ymdrin â'r prif faterion a oedd yn achosi pryder i randdeiliaid o fawr o werth, ac y byddai pawb yn teimlo'n rhwystredig ac yn dyfalu beth a allai ddigwydd nesaf.

Bydd y cynllun ar gyfer y goedwig gyfan yn dangos effaith debygol yr adolygiad gwyddoniaeth - ond ni fydd unrhyw newidiadau ar hyd yr ymylon arfordirol y bu dadlau yn eu cylch na ger y Tywyn yn cael eu gweithredu hyd nes bod yr adolygiad wedi'i gwblhau.

Meddai Peter Garson, Pennaeth Rheoli Ystâd Comisiwn Coedwigaeth Cymru, a oedd yn cadeirio'r cyfarfod yn Sefydliad Pritchard Jones ar 22 Gorffennaf, "Rwyf yn gobeithio'n fawr y byddwch yn meddwl fod hyn yn adeiladol.



Map awyrol yn dangos maint cwympo coed dan y cynllun rheoli coedwig arfaethedig a gafodd ei ddangos i Bartneriaeth Coedwig Niwbwrch mewn cyfarfod diweddar

"Gellid dadlau na ddylid gwneud unrhyw benderfyniadau nes bod pob elfen o'r ansicrwydd gwyddonol wedi cael eu datrys, ond gallai hynny gymryd blynyddoedd.

"Rydym felly, fel rheolwyr tir ymarferol a phragmatig, yn dymuno cyflwyno cynllun ar gyfer y goedwig gyfan, gan gydnabod ar yr un pryd fod y cynllun yn cynnwys rhai agweddau ansicr lle rydym eisiau symud ymlaen gyda gofal."

Mae Coedwig Niwbwrch yn Ardal Gadwraeth Arbennig – dyma'r dynodiad amgylcheddol uchaf yn Ewrop – ac mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gomisiwn Coedwigaeth Cymru i lunio cynllun dyluniad coedwig sy'n cwrdd â gofynion rheoliadau llym mewn perthynas â chynefinoedd.

Ond, hefyd, mae angen teneuo ardaloedd o'r goedwig er mwyn rheoli effeithiau'r Malltod Nodwyddau Band Coch.

Yn ogystal â nodi faint o waith cwympo sydd angen ei wneud i ddiogelu'r twyni tywod, bydd y cynllun yn cynnwys mesurau i ofalu am y wiwer goch a rhywogaethau pwysig eraill.

Meddai Peter wrth y cyfarfod, "Rydym eisiau rhannu hyn gyda chi er mwyn i ni gael peth adborth cyn rhoi'r cynllun llawn at ei gilydd â'i anfon ymlaen i gael ei gymeradwyo'n ffurfiol."

Dywedodd y byddai'r cynllun yn cael ei anfon at aelodau'r Bartneriaeth Gyswllt a'i fod yn gobeithio y gellid trefnu sesiynau galw-i-mewn pellach ar gyfer y gymuned.

Allwedd

***Parth 1** Llwyrgwympo - Annog Prosesau Arfordirol Naturiol

***Parth 2** Aildrefniad ac Arbrawf Hydrolegol

***Parth 3** Anghenion Monitro ac Adolygu ar gyfer creu parthau twyni

Parth 4 Prosesau Naturiol, Ymyriad Cyfyngedig

Parth 5 Gwarchod Coedwigoedd - Tan-blannu

* Yn amodol â'r adolygiad gwyddonol terfynol

Cyfarfod i fwrw ymlaen â'r adolygiad gwyddonol

Yn dilyn adroddiad yr Adolygiad Gwyddonol a gyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad, bwriad y Cyngor Cefn Gwlad a Phartneriaeth Coedwig Niwbwrch yw cyfarfod unwaith eto.

Ar ôl cynnal pedwar o gyfarfodydd i fwrw golwg dros y wyddoniaeth sy'n sail i ddynodi a rheoli'r ardal yn y dyfodol, mae sawl peth yn parhau i fod yn destun anghytuno.

Nod y cyfarfod yw ceisio cael gwell eglurhad o'r elfennau sy'n peri anghytundeb, gan argymell ffordd ymlaen.

Fydd yr adroddiad yn cynnwys ardaloedd o gytundeb sy'n gysylltiedig gyda'r materion hydrolegol.

Yn ôl Tim Jones, Cyfarwyddwr Rhanbarthol y Cyngor Cefn Gwlad, "Ym marn y Cyngor Cefn Gwlad, dylid torri rywfaint o goed mewn rhan fechan o'r goedwig er mwyn adfer y twyni naturiol y tu ôl i'r draethlin ac er mwyn delio ag effaith y goedwig ar lefel y trwythiad sydd yn effeithio ar y cynefinoedd twyni.

"Bydd Partneriaeth Coedwig Niwbwrch yn cyfarfod unwaith eto i geisio dod o hyd i ffordd o ddatrys y pethau sy'n destun anghytuno."

Meddai eto, "Mae'r Cyngor Cefn Gwlad o'r farn y bydd modd cynnal a chyfoethogi'r rhan fwyaf o'r goedwig, gan gael gwared â rhywfaint o goed ar ochr y lan er mwyn sicrhau y bydd modd i'r twyni symud a datblygu'n naturiol - rhywbeth a fydd yn cynnig cynefin cyfoethog ac amrywiol i doreth o fywyd gwyllt.

"Mae'r sïon sydd ar led yn yr ardal y bydd mwy na 40% o'r coed yn cael eu torri i lawr yn gwbl ddi-sail. Pryder y Cyngor Cefn Gwlad yw y gallai'r wybodaeth gamarweiniol yma arwain at ofid diangen."

Cytunwyd y dylid sicrhau bod y goedwig yn cynnwys amrywiaeth o goed, yn arbennig o gofio am y malltod rhesi cochion sy'n bygwth pinwydd Corsica. Hefyd, cytunwyd y dylid parhau i reoli gwiwerod llwyd fel rhan o gyfraniad Coedwig Niwbwrch at warchod poblogaeth Ynys Môn o wiwerod coch.

Ond mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn bendant ei farn na fyddai lleihau rhywfaint ar faint y goedwig yn cael effaith andwyol ar boblogaeth yr ynys o wiwerod coch.

Meddai Tim, "Dros y deuddeg mlynedd diwethaf, mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi buddsoddi llawer o arian yn adfer poblogaeth y gwiwerod coch ar Ynys Môn, a dydyn ni ddim eisiau rhoi'r buddsoddiad yma yn y fantol."

Gellir cael y diweddaraf am yr adolygiad gwyddonol ar wefan y Cyngor Cefn Gwlad.

Tafol y traeth - gwymon o dras Geltaidd!

Does dim byd yn well na dod o hyd i ryw drysor sydd, ar yr olwg gyntaf, yn ymddangos yn ddiwerth. Dyma'r profiad y mae'r rhan fwyaf yn ei gael wrth ddod wyneb yn wyneb â thafolen y traeth, sef un o blanhigion prinnaf Cymru.

Heblaw am arlliw cynnil y dail a siâp bwlb y capsiwlau hadau, mi fyddai'n hawdd iawn anwybyddu'r planhigyn prin yma a'i gamgymryd am unrhyw dafolen grychlyd arall – sef teulu o blanhigion sy'n cael fawr ddim sylw gan dirfeddianwyr na chadwraethwyr.

Mae angen inni ailedrych ar y planhigyn yma i'w werthfawrogi'n iawn. Yng nghrombil coedwig Niwbwrch mae tafol y traeth i'w cael. Dyma dafolen brinnaf y byd ac mae'n tyfu yma yn ei lleoliad mwyaf gogleddol fel arwydd o'r oes a fu.

Ers talwm, arferai cartref y planhigyn yn y goedwig fod yn draethlin aber Afon Cefni. Rywsut, mae wedi goroesi yma am ganrifoedd, er bod y dirwedd wedi newid. Mae'r planhigyn yma i'w gael ar wasgar yn Galicia yng ngogledd Sbaen, trwy Lydaw, Cernyw a de Cymru – felly, mae'n amlwg ei fod yn dod o dras Geltaidd dros ben.

Er mwyn cynyddu maint y boblogaeth ar y safle, bu coedwigwyr a chadwraethwyr yn gweithio'n galed ã'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth. Caiff merlod eu defnyddio i bori'r llystyfiant a sathru'r safle. Tir gwlyb a gaiff ei symud yn rheolaidd yw'r tir delfrydol ar gyfer y planhigyn. Er na cheir môr na llanw yma, y gobaith yw y gallwn ni ddal ein gafael ar y rhywogaeth yma sydd bellach yn nodweddiadol o dir Niwbwrch.

Shoredock

Swydd newydd y Doethur

Yn ddiweddar dechreuodd Jon Stammers weithio i CC Cymru yn Niwbwrch.

Mae Jon wedi cwblhau eu PhD mewn leithyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor a nawr yn cael ei alw'n swyddogol, yn Dr Jon.

Ei waith yn bennaf yw helpu edrych ar ôl y maes parcio a llwybrau'r goedwig ar Ynys Môn, ond fe fydd yn treulio y rhan fwyaf o'i amser yn Niwbwrch.

Hefyd yn ddiweddarach yn yr haf byddwch efallai yn cael eich stopio gan rywun gyda chlipfwrdd yn gofyn cwestiynau am eich ymweliad. Mae CC Cymru'n gwneud arolwg fel rhan o waith monitro ein safleoedd hamdden yng Nghymru. Fydd y wybodaeth yn cael ei ddefnyddio i helpu gwella ansawdd eich ymweliad.

Edrychwch ar y gwcw! (1)

Er bod niferoedd cwtiaid torchog wedi gostwng drwy'r wlad, diolch i'r gwanwyn sych a braf a gawson ni ac ymdrechion caled y staff a'r gwirfoddolwyr, mae yna gynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y cwtiaid torchog sy'n nythu ar ynys Llanddwyn.

Mae'r adar hoffus yma'n nythu yn ystod diwedd y gwanwyn a'r haf ar ran uchaf y traeth, yn benodol ar raean bras sydd â rhywfaint o lystyfiant arno efallai. Mae'n haws eu clywed na'u gweld, a hynny gan fod eu cuddliw mor effeithiol.

Dydy cywion cwtiaid torchog ddim yn aros yn hir yn y nyth - dim ond hyd nes y byddan nhw wedi sychu ac yn ddigon cryf i sefyll a cherdded. Gall yr amser yma amrywio o rai oriau i ddiwrnod cyfan, ond mae'r rhan fwyaf yn gadael y nyth o fewn pedair awr ar hugain i chwilio am fwyd.

Wrth fynd am dro ar draethau graeanog yn ystod y tymor nythu, cofiwch y gall adar fod yno'n nythu. Parchwch unrhyw gyfyngiadau'n ymwneud â chŵn a cheisiwch darfu cyn lleied â phosibl ar bawb a phopeth.

Rob a'r gigfran

Rhyddhaodd Rob Williams, dyn yn y fan a'r lle'r Comisiwn Coedwigaeth, gigfran ifanc fewn i'r goedwig ar ôl i'r aderyn cael ei roi i'r CFGA fel cyw amddifad yn ardal Caernarfon.

Gyda thipyn o lwc, fydd yr aderyn yn gwneud ei gartref ymysg y nythfa yng nghoedwig Niwbwrch, sydd yn cael ei ystyried yn un o'r rai mwyaf yn Ewrop.

Fe ryfeddwyd Rob gan led adenydd y gigfran, "Nid ydych yn sylweddoli pwy mor fawr ydynt tan rydych yn eu gweld yn chwifio drwy'r coed, ond maent yn eithaf trawiadol yn agos."

Blodau'r Tywyn yn eu bri

Mae'r glaw braf a gawson ni ddechrau Gorffennaf wedi carpedu'r llaciau a'r gweirdiroedd â thegeirianau, y galdrist, brial y gors, trilliw a phys-y-ceirw.

Mae twyni tywod ymhlith cynefinoedd cyfoethocaf y Deyrnas Unedig, oherwydd maen nhw'n cynnwys mwy o blanhigion blodeuol fesul metr sgwâr nag unrhyw gynefin arall!

Yn ôl gwaith ymchwil diweddar gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, mae amrywiaeth y blodau sydd ar y Tywyn yn cynyddu gan fod y tir yn cael ei bori gan anifeiliaid – rhywbeth sy'n helpu i'w reoli. Maen nhw'n cadw'r glaswellt yn fyr, ac o'r herwydd dydy'r blodau ddim yn cael eu mygu.

Dewch i weld â'ch llygaid eich hun! Mae mynd am dro drwy Dywyn Niwbwrch ar noson gynnes braf, yng nghyfeiliant swynol yr ehedyddion fry uwchben, yn eli i'r enaid ac yn ffordd o ddianc rhag helbulon ein bywyd beunyddiol.

Tegeirian Gwenynog

Peidiwch â mynd ar goll yn ystod yr haf

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r gwasanaeth Gwyliwr y Glannau i ddarparu bandiau llewys i ymwelwyr gyda phlant. Y syniad yw i ysgrifenni rif teliffon cysylltu ar y band, fel os fydd eich plentyn yn mynd ar goll ac un o'n Coedwigwyr yn dod o hyd iddynt yn gyntaf, fedrwn gysylltu gyda chi yn ddi-oed i stopio'r panig. Gofynnwch i'n Coedwigwr am fanylion y tro nesaf y byddwch yn ymweld â'r traeth.

Arbenigwyr ar goedwigaeth yn mynd â syniadau adref gyda nhw o Niwbwrch

Yn ddiweddar fe groesawyd grŵp o Nepal a Laos i Goedwig Niwbwrch oedd yn rhan o daith ymchwil i Ogledd Cymru a gafodd ei drefnu gan y Ganolfan am Ddatblygiad Cenedlaethol yn Telford.

Mae'r tîm o wyth yn fawr eu parch yn eu gwledydd oherwydd eu gwaith ar goedwigaeth gymunedol a rheolaeth coedwigo anghyfreithlon.

Fe arweiniodd Tim Gordon-Roberts o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru taith tywysedig, gyda'r testunau trafod yn amrywio o reolaeth gelod i newid yn yr hinsawdd.

Meddai arweinydd y grŵp, Dr Yadav, "Mae wedi bod yn ddydd defnyddiol iawn - rydym yn cychwyn ar strategaeth coedwigaeth genedlaethol yn Nepal ac fe fyddwn yn mynd â'r holl wybodaeth rydym wedi ei ddysgu heddiw yng Nghymru, yn ôl gyda ni"

Diweddwyd yr ymweliad gyda thaith gerdded ar hyd y traeth. Gan fod Nepal a Laos yn dirgaeedig, dyma'r cyfle cyntaf i lawer o'r ymwelwyr i drochi eu traed yn y môr!

Llun o Reolwr Ardal Leol CC Cymru Tim Gordon-Roberts gyda'r ymwelwyr o Nepal a Laos

Cysylltwch â ni...

I gael yr holl newyddion diweddaraf ar Niwbwrch, ewch i wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar **www.forestry.gov.uk** neu ffoniwch ni ar **0300 068 0300**, neu cysylltwch â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar **enquires@ccw.gov.uk** Ffôn **0845 1306 229**

FSC

Mae coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi cael eu hardystio yn unol â rheolau Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd SGS-FM/COC-000358 © 1996 Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd AC
Argraffwyd y ddogfen hon ar Revive 50:50 Offset, papur wedi'i ailgylchu a gynhyrchir drwy ddefnyddio 50% o wastraff adferedig a 50% ffibr pren gwyryf. FSC SGS-COC-0912

FCW5805 08/10 400